OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2880

# Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

## RHAN 1

Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac maent yn dod i rym ar 1 Hydref 2011.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn adrodd" ("*reporting year*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar 6 Ebrill 2012;

(b) ar ôl hynny, y cyfnod sy'n cychwyn ar 7 Ebrill mewn un flwyddyn ac sy'n dod i ben ar 6 Ebrill y flwyddyn ganlynol; ac mae'r cyfnod hwnnw am y tro cyntaf i gychwyn ar 7 Ebrill 2012;

ystyr "cofnod" ("*record*") yw'r wybodaeth a bennir yn rheoliad 8(3);

ystyr "cosb am dalu'n hwyr" ("*late payment penalty*") yw unrhyw gynnydd mewn swm sy'n daladwy—

(a) fel cosb ariannol benodedig, yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 2;

(b) fel cosb ariannol amrywiadwy, yn rhinwedd paragraff 9 o Atodlen 3;

(c) fel cosb am beidio â chydymffurfio, yn rhinwedd paragraff 8 o Atodlen 4;

mae i "hysbysiad adennill costau gorfodi" ("*enforcement costs recovery notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 16(1);

mae i "hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio" ("*non-compliance penalty notice*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 5(4) o Atodlen 4;

mae i "swm penodedig" ("*specified sum*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 4(2) o Atodlen 2;

mae "swyddogaethau" ("*functions*") yn cynnwys pwerau a dyletswyddau; ac

ystyr "y tâl" ("*the charge*") yw'r isafswm tâl a bennir yn rheoliad 6.

(2) Mae cyfeiriadau at—

(a) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 2;

(b) hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yn gyfeiriadau at hysbysiad terfynol a gyflwynir o dan baragraff 6(5) o Atodlen 2;

(c) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 3;

(ch) hysbysiad terfynol mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn, yn gyfeiriadau at hysbysiad terfynol a gyflwynir o dan baragraff 5(6) o Atodlen 3;

(d) hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb am beidio â chydymffurfio, yn gyfeiriadau at hysbysiad o fwriad a gyflwynir o dan baragraff 3(1) o Atodlen 4.

(3) Mae cyfeiriadau at fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl yn gyfeiriadau at y bagiau siopa untro hynny y mae rheoliad 6 yn gymwys iddynt.

**Ystyr "bag siopa untro"**

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "bag siopa untro" ("*single use carrier bag*") yw bag sy'n cyfateb i'r disgrifiad ym mharagraff (2) neu (3)—

(2) Mae bag yn cyfateb i'r disgrifiad yn y paragraff hwn—

(a) os yw wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o bapur, deunydd sy'n seiliedig ar blanhigion neu startsh naturiol; a

(b) os nad yw wedi ei weithgynhyrchu'n benodol i'w ailddefnyddio'n aml.

(3) Mae bag yn cyfateb i'r disgrifiad yn y paragraff hwn os yw'n fag plastig—

(a) nad yw'n bodloni pob un o'r gofynion ym mharagraff (4); neu

(b) sy'n bodloni pob un o'r gofynion ym mharagraff (4) ond nad yw wedi ei fwriadu i'w ailddefnyddio'n aml (*gweler* paragraff (5)).

(4) Y gofynion yw—

(a) bod y naill a'r llall o ddimensiynau'r bag yn fwy na 404 o filimetrau ("mm");

(b) bod o leiaf un o ddimensiynau'r bag yn fwy na 439 mm;

(c) bod y bag wedi ei weithgynhyrchu o ddeunydd sy'n fwy na 49 o ficronau yn ei drwch.

(5) Mae bag plastig wedi ei fwriadu i'w ailddefnyddio'n aml—

(a) os yw wedi ei brynu gan y cwsmer; a

(b) pan fydd wedi ei dreulio'n llwyr, os gellir ei ddychwelyd i'r gwerthwr y prynwyd ef ohono a chael un newydd yn ei le yn ddi-dâl.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "bag plastig" ("*plastic bag*") yw bag sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig;

ystyr "dimensiynau" ("*dimensions*") yw lled neu uchder.

**Ystyr "gwerthwr"**

**4.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "gwerthwr" ("*seller*") yw person sydd wrth fasnachu neu redeg busnes—

(a) yn gwerthu nwyddau o le yng Nghymru;

(b) yn gwerthu nwyddau a gyflenwir i bersonau yng Nghymru.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Pan fo person (A) yn gwerthu nwyddau yn swyddogaeth A fel swyddog neu gyflogai i berson arall (B), yna at ddibenion y Rheoliadau hyn B yw'r gwerthwr o dan yr amgylchiadau hynny, ac nid A.

**Gweinyddwr**

**5.**—(1) Awdurdod lleol sydd i weinyddu'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn, ac yn unol â hynny, ef yw'r gweinyddwr ar gyfer ei ardal(**1**).

(2) Ym mharagraff (1) mae'r cyfeiriad at awdurdod lleol yn gyfeiriad at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

# RHAN 2

## Y Tâl a Godir

**Gofyniad i godi tâl**

**6.** Rhaid i werthwr godi isafswm o 5 ceiniog am bob bag siopa untro newydd a gyflenwir—

(a) yn y lle yng Nghymru lle y gwerthir y nwyddau, at ddibenion galluogi'r nwyddau i gael eu cymryd oddi yno;

(b) at ddibenion galluogi'r nwyddau i gael eu cyflenwi i bersonau yng Nghymru.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i reoliad 7.

**Esemptiad i'r gofyniad i godi tâl**

**7.** Nid yw rheoliad 6 yn gymwys mewn perthynas â chyflenwi bagiau siopa untro o'r mathau a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac mae'r Atodlen honno yn cael effaith yn unol â hynny.

# RHAN 3

## Cofnodion a Chyhoeddi

**Cadw cofnodion**

**8.**—(1) Rhaid i werthwr gadw cofnod cywir o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer pob blwyddyn adrodd.

(2) Rhaid i werthwr ddal gafael ar gofnodion am gyfnod o dair blynedd gan gychwyn ar 31 Mai yn y flwyddyn adrodd yn dilyn honno y mae cofnod yn berthnasol iddi.

(3) Yr wybodaeth yw—

(a) nifer y bagiau siopa untro a gyflenwir gan y gwerthwr sy'n denu'r tâl;

(b) y swm gros a gafwyd gan y gwerthwr drwy godi taliadau am fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl;

(c) enillion gros y tâl(**2**);

(ch) enillion net y tâl(**3**);

(d) dadansoddiad o sut y daethpwyd at y swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng enillion gros ac enillion net y tâl, gan gynnwys (yn benodol)—

(i) y dosraniad rhwng unrhyw TAW briodoladwy a chostau rhesymol;

(**1**) I gael diffiniad o "*administrator*", *gweler* paragraff 6(1) a (4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008; ac ar gyfer cwmpas pwerau gweinyddwyr o dan y Rheoliadau hyn, *gweler* rheoliad 19.

(**2**) I gael ystyr "*gross proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(**3**) I gael ystyr "*net proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(ii) y dosraniad rhwng pennau gwahanol o gostau rhesymol;

(dd) at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net a gafwyd o'r tâl.

(4) Y canlynol yw'r symiau penodedig at ddibenion y diffiniad o "*net proceeds of the charge*" ym mharagraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008(**4**)—

(a) swm unrhyw TAW briodoladwy;

(b) swm unrhyw gostau rhesymol.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "costau rhesymol" ("*reasonable costs*") yw—

(a) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;

(b) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gyfathrebu gwybodaeth am y tâl i gwsmeriaid;

mae i "TAW" yr ystyr a roddir i "*VAT*" yn adran 96 o Ddeddf Treth ar Werth 1994(**5**);

ystyr "TAW briodoladwy" ("*attributable VAT*") yw'r TAW ar gyflenwad gan y gwerthwr o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

**Argaeledd cofnodion**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person a grybwyllir ym mharagraff (4) yn gwneud cais i werthwr yn ysgrifenedig i gyflenwi cofnod am flwyddyn adrodd.

(2) Os daw cais i law yn ystod y cyfnod y delir gafael ar y cofnod sydd o dan sylw, rhaid i'r gwerthwr ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r person a wnaeth gais amdano o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael y cais ysgrifenedig.

(3) Y cyfnod dal gafael yw'r cyfnod o dair blynedd y mae'n rhaid dal gafael ar unrhyw gofnod penodol o dan reoliad 8(2).

(4) Y personau yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) aelod o'r cyhoedd.

**Cyhoeddi cofnodion**

**10.**—(1) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar gyfer blwyddyn adrodd os bodlonir yr amodau ym mharagraff (2) gan y gwerthwr mewn perthynas â'r flwyddyn adrodd o dan sylw.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod y gwerthwr yn berson trethadwy at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994;

(b) bod y gwerthwr yn cyflenwi 1000 neu fwy o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

(3) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar neu cyn 31 Mai yn y flwyddyn adrodd sy'n dilyn honno y mae'r cofnod yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i'r cofnod barhau i fod wedi ei gyhoeddi hyd at 31 Mai yn y flwyddyn adrodd ddilynol.

(5) Rhaid i'r cyhoeddi fod yn y dull a ganlyn—

(a) ar wefan y gwerthwr; neu

(**4**) 2008 p.27.
(**5**) 1994 p.23; mae diwygiadau i adran 96 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) drwy arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y cofnod yn holl fangreoedd y gwerthwr yng Nghymru y mae gan gwsmeriaid fynediad iddynt.

(6) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod ar ei wefan—

(a) rhaid i'r cofnod gael ei arddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr; neu

(b) os yw'r cofnod i gael ei arddangos yn rhywle arall ar wefan y gwerthwr, rhaid i ddolen i'r cofnod gael ei harddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr.

(7) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod yn y dull a ddisgrifir ym mharagraff (5)(b), rhaid i'r hysbysiad gael ei arddangos mewn lle amlwg, fel bod cwsmeriaid yn gallu ei weld yn eglur ac yn gallu ei ddarllen.

# RHAN 4

## Torri'r Rheoliadau

### Torri'r Rheoliadau

**11.**—(1) Mae gwerthwr yn torri'r Rheoliadau hyn os yw, oherwydd methiant i gymryd pob cam rhesymol sy'n angenrheidiol i'w alluogi i wneud hynny, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Y gofynion yw—

(a) y gofyniad i godi tâl yn unol â rheoliad 6;

(b) y gofyniad i gadw cofnodion yn unol â rheoliad 8;

(c) y gofyniad i ddal gafael ar gofnodion yn unol â rheoliad 8;

(ch) y gofyniad i gyflenwi cofnodion yn unol â rheoliad 9;

(d) y gofyniad i gyhoeddi cofnodion yn unol â rheoliad 10.

(3) Mae gwerthwr yn torri'r Rheoliadau hyn os yw, heb achos rhesymol—

(a) yn rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i weinyddwr;

(b) yn rhwystro gweinyddwr neu'n methu â rhoi cymorth iddo fel arall wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

# RHAN 5

## Sancsiynau sifil

### Sancsiynau sifil

**12.** Mae'r Atodlenni canlynol yn cael effaith—

(a) Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol penodedig(**6**);

(b) Atodlen 3, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gofynion yn ôl disgresiwn(**7**).

---

(**6**) I gael ystyr "*fixed monetary penalty*" *gweler* paragraff 10(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.
(**7**) I gael ystyr "*discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

**Cyfuniad o gosbau**

**13.**—(1) Ni chaiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb ariannol benodedig i werthwr os gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn ar y gwerthwr hwnnw mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau.

(2) Ni chaiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn i werthwr yn unrhyw o'r amgylchiadau canlynol—

(a) pan fo cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y gwerthwr hwnnw mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau;

(b) pan fo'r gwerthwr wedi rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu swm penodedig;

(c) pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn eisoes wedi ei osod mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

# RHAN 6

## Gorfodi a Pheidio â chydymffurfio

**Pwerau gorfodi**

**14.**—(1) Mae gan weinyddwr y pwerau gorfodi sydd yn y rheoliad hwn.

(2) Y pwerau yw—

(a) prynu nwyddau prawf er mwyn canfod a gydymffurfir â'r Rheoliadau hyn;

(b) arolygu unrhyw nwyddau a mynd i mewn i unrhyw fangre ar unrhyw adeg resymol (heblaw mangre ddomestig) er mwyn canfod a gydymffurfir â'r Rheoliadau hyn;

(c) os yw gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn—

(i) cwestiynu gwerthwr neu swyddogion neu gyflogeion gwerthwr;

(ii) ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau'n cael eu dangos neu fod gwybodaeth yn cael ei darparu.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "mangre ddomestig" ("*domestic premises*") yw mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn annedd breifat.

(4) Rhaid i weinyddwr sy'n ceisio arfer pŵer o dan baragraff (2)(b) neu (c) ddangos tystiolaeth o bwy ydyw a thystiolaeth o'i awdurdod os y person sy'n gofyn iddo, neu felly yr ymddengys, yw—

(a) y gwerthwr, neu swyddog neu gyflogai i'r gwerthwr;

(b) perchennog neu feddiannydd unrhyw fangre lle y mae'r gweinyddwr yn ceisio arfer y pŵer o dan sylw.

(5) Nid oes dim ym mharagraff (2) sy'n gorfodi dangos unrhyw ddogfen—

(a) yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, y byddai gan y person hwnnw ar seiliau braint broffesiynol gyfreithiol yr hawl i beidio â'i dangos o dan orchymyn datgelu mewn achos yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys; neu

(b) yn yr Alban, y byddai gan y person hwnnw ar seiliau cyfrinachedd gohebiaeth yr hawl i beidio â'i dangos o dan orchymyn dangos dogfennau mewn achos yn y Llys Sesiwn.

**Gofynion yn ôl disgresiwn nad ydynt yn rhai ariannol: gorfodi**

**15.** Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosbau ariannol mewn achosion pan fo gwerthwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol(**8**) ac mae'r Atodlen honno'n cael effaith yn unol â hynny.

**Adennill costau gorfodi**

**16.**—(1) Caiff gweinyddwr gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad adennill costau gorfodi") i werthwr y gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn arno yn ei gwneud yn ofynnol bod y gwerthwr hwnnw'n talu'r costau yr aed iddynt gan y gweinyddwr mewn perthynas â gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn hyd at amser ei osod ("costau gorfodi").

(2) Mae costau gorfodi yn cynnwys, yn benodol—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigwr (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i hysbysiad adennill costau gorfodi bennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu a rhaid iddo gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) sut y gellir talu;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu;

(c) yr hawl i apelio; a

(ch) y canlyniadau am fethu â thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

(4) Rhaid i'r dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad adennill costau gorfodi i'r gwerthwr.

(5) Rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad adennill costau gorfodi.

(6) Ond mae paragraff (5) yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn y rheoliad hwn a rheoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(7) Os yw penderfyniad gweinyddwr o dan y rheoliad hwn yn destun apêl, yna i'r graddau y caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r costau gorfodi o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyfernir yr apêl.

(8) Rhaid i weinyddwr ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau a bennir mewn hysbysiad adennill costau gorfodi os bydd y gwerthwr y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo yn gofyn amdano.

(9) Nid yw gwerthwr yn atebol i dalu unrhyw gostau y mae'r gwerthwr hwnnw'n dangos yr aed iddynt yn ddiangen.

(10) Caiff gwerthwr apelio—

(a) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod gofyniad i dalu costau;

(b) yn erbyn penderfyniad gweinyddwr o ran swm y costau hynny.

**Adennill taliadau**

**17.** Caiff gweinyddwr adennill unrhyw gosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy, cosb am fethu â chydymffurfio, costau gorfodi neu gosb am fod yn hwyr yn talu—

(a) fel dyled sifil;

(b) ar orchymyn gan lys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(**8**) I gael ystyr "*non-monetary discretionary requirement*" *gweler* paragraff 12(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

**Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil**

**18.**—(1) Caiff gweinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i werthwr y gosodwyd sancsiwn sifil arno(**9**).

(2) Y canlynol yw'r wybodaeth a bennir at ddibenion paragraff 19(2)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008—

(a) y math o sancsiwn sifil o dan sylw;

(b) y seiliau dros osod y sancsiwn;

(c) os oedd y sancsiwn yn gosb ariannol benodedig neu'n gosb ariannol amrywiadwy, swm y gosb honno;

(ch) os oedd y sancsiwn yn ofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n ariannol, natur y gofyniad o dan sylw.

(3) Rhaid i hysbysiad cyhoeddusrwydd—

(a) pennu'r dull cyhoeddi sy'n ofynnol;

(b) pennu'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthwr ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r hysbysiad o fewn amser a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Os bydd gwerthwr yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cyhoeddusrwydd o fewn yr amser a bennir o dan baragraff (3)(b), caiff y gweinyddwr—

(a) rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd iddi gan yr hysbysiad; a

(b) adennill y costau o wneud hynny oddi wrth y gwerthwr o dan sylw.

(5) Pan fo gweinyddwr yn rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth o dan baragraff (4)(a) rhaid iddo wneud hynny mewn dull y mae'n ystyried yw'r dull mwyaf tebygol i ddwyn yr wybodaeth i sylw aelodau o'r cyhoedd yn ei ardal.

# RHAN 7

## Gweinyddu

**Cwmpas pwerau gweinyddwyr**

**19.** Mae'r swyddogaethau a roddir i weinyddwr gan y Rheoliadau hyn yn arferadwy gan weinyddwr yn ei ardal ac mewn perthynas â hi.

**Tynnu hysbysiad yn ôl neu ei ddiwygio**

**20.**—(1) Caiff gweinyddwr ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig—

(a) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol benodedig;

(b) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â chosb ariannol amrywiadwy neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

(c) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad neu hysbysiad terfynol mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n ariannol neu ddiwygio'r camau a bennir yn yr hysbysiad er mwyn lleihau swm y gwaith angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad;

(**9**) I gael ystyr "*publicity notice*" *gweler* paragraff 19(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

(ch) tynnu'n ôl hysbysiad o fwriad mewn perthynas â chosb am beidio â chydymffurfio neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

(d) tynnu'n ôl hysbysiad o gosb am beidio â chydymffurfio neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad;

(dd) tynnu'n ôl hysbysiad adennill costau gorfodi neu leihau'r swm a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i weinyddwr ymgynghori â'r gwerthwr o dan sylw cyn tynnu hysbysiad yn ôl neu ei ddiwygio o dan baragraff (1).

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys yn unrhyw achos os nad yw'n ymarferol i ymgynghori â'r gwerthwr o dan sylw.

### Apelau

**21.**—(1) Mae apêl o dan y Rheoliadau hyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf(**10**) ("y Tribiwnlys").

(2) Yn unrhyw apêl pan fo cyflawni toriad yn y Rheoliadau yn fater sy'n gofyn am ddyfarniad, rhaid i'r gweinyddwr brofi'r toriad hwnnw yn y Rheoliadau yn ôl pwysau tebygolrwydd.

(3) Yn unrhyw achos arall rhaid i'r Tribiwnlys ddyfarnu safon y prawf.

(4) Mae gofyniad neu hysbysiad sy'n destun apêl yn cael eu hatal tra disgwylir dyfarniad i'r apêl.

(5) Caiff y Tribiwnlys, mewn perthynas â gosod gofyniad neu gyflwyno hysbysiad—

(a) tynnu'n ôl y gofyniad neu'r hysbysiad;

(b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(c) cymryd y camau hynny y gallai gweinyddwr eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a roes fod i'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(ch) dychwelyd y penderfyniad ai cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at y gweinyddwr.

### Canllawiau o ran defnyddio sancsiynau sifil

**22.**—(1) Rhaid i weinyddwr gyhoeddi canllawiau am ei ddefnydd o sancsiynau sifil o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys yr wybodaeth berthnasol (gweler paragraffau (5) a (6)).

(3) Rhaid i weinyddwr ddiwygio'r canllawiau lle y mae hynny'n briodol.

(4) Rhaid i'r gweinyddwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

(5) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw'r wybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gosb yn debygol o gael ei gosod;

(b) o dan ba amgylchiadau ni chaniateir gosod y gosb;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gellir cael rhyddhad rhag atebolrwydd am y gosb ac effaith y rhyddhad;

(d) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau; a

(dd) hawliau i apelio.

(**10**) Trosglwyddir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 5B(a) o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uchaf (Siambrau) 2008 (O.S. 2008/2684, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/196, 2009/1021 a 2009/1590). Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976) yn gosod rheolau gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r cyfryw apelau.

(6) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â gofyniad yn ôl disgresiwn, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw'r wybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gofyniad yn debygol o gael ei osod;

(b) o dan ba amgylchiadau ni chaniateir gosod y gofyniad;

(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, y materion sy'n debygol o gael eu cymryd i ystyriaeth gan y gweinyddwr wrth iddo ddyfarnu swm y gosb (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, unrhyw ddisgownt am adrodd yn wirfoddol am beidio â chydymffurfio);

(ch) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau; a

(d) hawliau i apelio.

**Canllawiau ychwanegol**

**23.**—(1) Rhaid i weinyddwr gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y bydd yn arfer y pwerau a roddir gan reoliad 15 ac Atodlen 4 (cosbau am beidio â chydymffurfio) a rheoliad 16 (adennill costau gorfodi).

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys, yn benodol, gwybodaeth o ran—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r pwerau'n debygol o gael eu harfer;

(b) y materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu'r symiau mewn golwg;

(c) hawliau i apelio.

(3) Rhaid i weinyddwr ddiwygio'r canllawiau lle y mae hynny'n briodol.

(4) Rhaid i weinyddwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**Ymgynghori ar ganllawiau**

**24.** Cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau neu ganllawiau diwygiedig o dan y Rheoliadau hyn rhaid i weinyddwr ymgynghori â'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol;

(c) Cydffederasiwn Diwydiant Prydain;

(ch) Ffederasiwn Busnesau Bach;

(d) Consortiwm Manwerthu Prydain.

**Cyhoeddi camau gorfodi**

**25.**—(1) Rhaid i weinyddwr o bryd i'w gilydd gyhoeddi adroddiadau sy'n pennu—

(a) yr achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt am dorri'r Rheoliadau hyn;

(b) os cosb ariannol benodedig yw'r sancsiwn sifil, yr achosion y rhyddhawyd atebolrwydd rhag cosb ynddynt yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 (rhyddhau rhag atebolrwydd yn dilyn hysbysiad o fwriad).

(2) Ym mharagraff (1)(a) nid yw'r cyfeiriad at achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt yn cynnwys achosion pan osodwyd y sancsiwn ond pan gafodd ei wrthdroi ar apêl.

(3) Rhaid i weinyddwr beidio â chyhoeddi adroddiad mewn unrhyw achos pan fo Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r gweinyddwr yn ysgrifenedig y byddai'n amhriodol i wneud hynny.

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

30 Tachwedd 2010